**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**2 MEDI 2020**

Cofnodion cyfarfod rhithiol Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 2 Medi 2020.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Dave Cox a Kevin Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol; Swyddogion Cynllunio; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu Priffyrdd; a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 82. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Bernie Attridge a Marion Bateman fod yr Aelod Lleol wedi cysylltu â nhw ar fwy na thri achlysur ynglŷn ag eitem 6.5 (061296) ar y Rhaglen.

## 83. SYLWADAU HWYR

Eglurodd y Cadeirydd fod y sylwadau hwyr wedi cael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod, ac atodwyd copi ohonynt i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

https://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4714&Ver=4&LLL=1

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y byddai'n darllen y sylwadau hwyr yn dilyn y cyflwyniad ar gyfer pob eitem ar y Rhaglen yn ystod y cyfarfod.

## 84. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Awst 2020 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Bernie Attridge a Chris Bithell eu cynnig a'u heilio.

Gofynnodd y Cynghorydd Marion Bateman i gael newid manylion y siaradwyr trydydd parti a nodir yn yr atodiad i'r cofnodion, ar gyfer cofnodion yn y dyfodol i ddangos y sylwadau a wnaed a chynhwyswyd yn y rhaglenni yn hytrach na'r rhai hynny a wnaed yn ystod y cyfarfod yn unig. Cytunwyd i newid hyn ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**85. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Nid oedd dim eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

**86. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi’r penderfyniadau fel y’i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

**87. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelodau o’r cyhoedd na’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 4.10 pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gwe-ddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i’n llyfrgell o we-ddarllediadau ar: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 2 MEDI 2020**

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 061392 | Cyngor Tref Bwcle | Cais llawn – Cais i ddymchwel annedd a chodi 56 annedd, mynediad, maes parcio, man agored a gwaith cysylltiedig yn 81 Drury Lane, Bwcle. | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd lleol i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan breswylydd lleol i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Cafodd grynodeb o ddau lythyr a dderbyniwyd gan eiddo cymdogol ei gynnwys gyda'r sylwadau hwyr fel y'i dosbarthwyd. | Gwrthwynebu'r apêl ar y sail a amlinellwyd yn yr adroddiad ar y sail nad oes unrhyw faterion cynllunio perthnasol wedi cael eu codi mewn ymateb i'r hysbysiadau statudol. |
| 060765 | Cyngor Tref Cei Connah | Cais llawn – Gosod a gweithredu paneli solar ar y tir a seilwaith cysylltiol yn Iard Crumps, Dock Road, Cei Connah. | Atodwyd sylwadau o gefnogaeth gan y Cynghorydd Bernie Attridge, fel Aelod Lleol, i'r adroddiad, gyda sylwadau ychwanegol o gefnogaeth wedi'u cynnwys gyda'r sylwadau hwyr fel y'i dosbarthwyd. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrwyd yn yr adroddiad a chadarnhad gan Network Rail nad yw'r cynigion yn effeithio ar y rhwydwaith rheilffyrdd, yn unol ag argymhellion y swyddog. |
| 061081 | Cyngor Tref Caerwys | Cais llawn – Newid defnydd tŷ tafarn a gwesty gyda llety i'r rheolwr i uned wyliau ar gyfer grwpiau mawr ac addasu a chodi | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Tudor Jones, i'r adroddiad yn y | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhellion y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | ardal dan do i greu uned saith ystafell wely ym mhrif adeilad Pwll Gwyn ac i wella’r pump o unedau gwyliau presennol i westeion yn y stablau a chreu uned ychwanegol gyda gwely sengl yng Ngwesty Pwll Gwyn, Afonwen. | rhaglen.<br><br>Cafodd datganiad gan yr asiant ei gynnwys gyda’r sylwadau hwyr fel y'i dosbarthwyd. | |
| 061296 | Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton | Cais llawn - Estyniad ochr unllawr yn Fern Bank, Old Warren, Brychdyn. | Ni chafodd sylwadau trydydd parti eu cynnwys yn y rhaglen nac ychwaith yn y sylwadau hwyr a ddosbarthwyd. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhellion y swyddog. |
| 060475 | Cyngor Cymuned Chwitffordd | Cais llawn – Codi uned bwyty bwyd cyflym ac uned siop goffi cyflym (defnydd dosbarth A3), mynedfa, tirlunio a gwaith cysylltiedig yn McDonalds, St. Asaph Road, Lloc. Asaph Road, Lloc | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan y Cynghorydd Chris Dolphin, fel Aelod Lleol, i’r adroddiad, gyda gwrthwynebiadau ychwanegol wedi’u cynnwys gyda’r sylwadau hwyr fel y'i dosbarthwyd.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd lleol i’r adroddiad yn y rhaglen. | Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad swyddog, ar y sail ganlynol:<br><br>• Datblygiad amhriodol yng nghefn gwlad; a<br>• Pryderon o ran diogelwch ar y priffyrdd. |
| 060792 | Cyngor Cymuned yr | Cais ar gyfer newid defnydd o annedd / tŷ (defnydd dosbarth | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan y | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | Hôb | C3) i gartref ar gyfer 11 o blant (defnydd dosbarth C2), gan gynnwys addasu’r atodiad garej i gyfleuster addysgol ar y safle, a dymchwel adeilad ar y safle a’i amnewid i ddarparu uned hunangynhwysol ar gyfer un o’r plant (11 plentyn i gyd). Hefyd i gynnwys maes parcio yn Oaklea Grange, Sandy Lane, Higher Kinnerton. | Cynghorydd Gladys Healey, fel Aelod Lleol, i’r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan grŵp preswylwyr lleol i’r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Cafodd datganiad gan yr asiant ei gynnwys gyda’r sylwadau hwyr fel y'i dosbarthwyd. | unol ag argymhellion y swyddog. |
| 060741 | Cyngor Tref Saltney | Cais i addasu Cytundeb Adran 106 yn Morrisons, Stryd Fawr, Saltney. | Cafodd gais i ohirio, gan y Cynghorydd Victoria Gay, ei gynnwys gyda’r sylwadau hwyr fel y'i dosbarthwyd.<br><br>Cafodd grynodeb o wrthwynebiadau gan ddau Gynghorydd Cymuned Saltney ei gynnwys gyda’r sylwadau hwyr fel y'i dosbarthwyd. | Cymeradwyo’r addasiad i’r cytundeb A106 fel y dilëir paragraff 3 i’r atodlen gyntaf, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |